



# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democraidd**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.30 y.h., DYDD MAWRTH, 17EG GORFFENNAF, 2018**

Lleoliad

**Y Capel, Nant Gwrtheyrn, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6NL**

**\*\* Noder y lleoliad \*\***

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

[BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru)

(Dosbarthwyd 10/7/18)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

### Cynghorwyr Gwynedd

Anwen Davies  
Simon Glyn  
John Brynmor Hughes  
Aled Wyn Jones  
Gareth Williams

### Eraill

Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.

### Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol,  
Cyfoeth Naturiol Cymru,  
Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,  
Cyfeillion Llŷn,  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,  
Undeb Amaethwyr Cymru,  
Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,  
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,  
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,  
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.

# R H A G L E N

## 1. CADEIRYDD

I ethol cadeirydd am y flwyddyn 2018/19.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol is-gadeirydd am y flwyddyn 2018/19.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2017, fel rhai cywir.

## 7. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

9

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

## 8. MATERION CENEDLAETHOL

10 - 11

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

## 9. MATERION CYNLLUNIO

12

Cyflwyno adroddiad Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn.

## 10. PROSIECTAU

13 - 14

Cyflwyno adroddiad Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn.

---

## CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 20/12/17

---

### Yn bresennol:

Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog) (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cyngor Gwynedd) (Is-Gadeirydd)

**Aelodau:** Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), John Gosling (Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn), Jina Gwyrfaï (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog), Sianelen Fleming (Cyngor Cymuned Pistyll), Hedd Rhys (NFU Cymru), Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn) a Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn), Elin Wyn Hughes (Swyddog Prosiect AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad a Mynediad) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Anwen Davies, John Brynmor Hughes ac Aled Wyn Jones (Cyngor Gwynedd) ynghyd â Brett Garner (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), Laura Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) ac Alun Price (Cyfoeth Naturiol Cymru).

### 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Sian Parri yn Gadeirydd am y flwyddyn 2017/18.**

### 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gareth Williams yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2017/18.**

### 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Gruffydd Williams (Cyngor Tref Nefyn) fuddiant personol, yn eitem 5 ar y rhaglen 'Mater Brys', oherwydd ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd. Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 4. MATER BRYs

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod cais diwygiedig wedi ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Cynllunio ar safle 'The Shanty, Abersoch' (cais rhif C17/1024/39/LL). Atgoffodd yr aelodau bod y Cyd-Bwyllgor wedi trafod y cais gwreiddiol yn y cyfarfod blaenorol ar 6 Medi 2017 ac wedi cyflwyno'r sylwadau isod ar y cais i'r Gwasanaeth Cynllunio:

- Bod Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn gwrthwynebu'r cais ar sail:
  - Byddai'r bwriad yn or-ddatblygiad o'r safle amlwg hon gyda'r ôl troed yn sylweddol fwy na'r tŷ presennol.
  - Byddai'r datblygiad yn ymwithiol.

- Bod y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yn pryderu o ran effaith gronol datblygiadau o'r fath ar yr AHNE.

Nododd y gwrthodwyd y cais gwreiddiol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 25 Medi 2017.

Adroddodd bod y Pwyllgor Cynllunio yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2017 wedi gohirio penderfyniad ar y cais diwygiedig er mwyn rhoi cyfle i'r Cyd-Bwyllgor gyflwyno sylwadau ar y cais.

Nododd bod y bwriad wedi ei leihau o ran maint y tŷ, nid oedd modurdy yn rhan o'r cais diwygiedig a byddai mwy o lystyfiant o gwmpas y datblygiad gan ei fod yn llai. Nododd ei fod wedi cyflwyno sylwadau ar y cais ar ran yr Uned AHNE i'r Gwasanaeth Cynllunio yn unol â'r drefn. Eglurodd ei fod ef fel cynllunydd siartredig yn gymwys i gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio.

Nododd ei fod wedi cyflwyno sylwadau ar y cais o ran materion yn ymwneud â'r effaith ar yr AHNE a'i fod o'r farn:

- Bod ymdrech da i geisio dylunio'r adeilad i weddu i'r safle unigryw ar drwyn y Penrhyn a bod safon y dyluniad yn uwch na'r datblygiadau bob ochr a oedd yn fwy trefol a digymeriad;
- Bod y deunyddiau ar y cyfan yn addas i'r safle arfordirol;
- Wedi pwysu a mesur manylion y cais na fyddai'r bwriad yn amharu ar yr AHNE.

Amlygodd fod yr Uned AHNE wedi cyflwyno sylwadau yn datgan pryder am nifer o geisiadau i ddymchwel ac ail-adeiladu yn ardal Abersoch, er enghraifft Gwesty Harbour Hotel, Gwesty White House a Blaen y Wawr ond fod y ceisiadau wedi eu caniatáu er hynny.

Tynnodd sylw'r aelodau at y cynlluniau a lluniau o'r datblygiad a oedd wedi eu harddangos yn y cyfarfod, gan nodi bod un cynllun yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cais gwreiddiol a'r cais diwygiedig. Nododd bod cynrychiolydd o gwmni Cadnant Planning (asiant y cais) yn bresennol a byddai'n ymateb i gwestiynau'r aelodau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau edrych ar y cynlluniau a'r lluniau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nododd yr aelodau'r prif bwyntiau canlynol:

- Er bod maint y tŷ wedi lleihau dal yn pryderu gan ei fod yn parhau i fod yn dri llawr gyda defnydd helaeth o wydr ar safle amlwg;
- Bod maint y tŷ yn fwy na'r tŷ gwreiddiol a ni fyddai'r tŷ arfaethedig yn yr union leoliad a'r tŷ presennol;
- Pryder o ran effaith gronol datblygiadau o'r fath ar yr ardal;
- Bod angen gwarchod adeiladau hanesyddol a byddai'r bwriad yn or-ddatblygiad o'r safle gyda dyluniad estron;
- Byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail.

Mewn ymateb i sylwadau aelodau, nododd cynrychiolydd Cwmni Cadnant Planning:

- Byddai'r tŷ'n defnyddio 25% o arwynebedd y safle gyda gweddill y tir ar gael i dirweddu'n effeithiol. Roedd rhai tai eraill yn yr ardal yn defnyddio oddeutu 60% o'r safle gyda llai o dir ar gael i dirweddu;
- Bod maint y tŷ wedi ei leihau 25% o gymharu â'r cais gwreiddiol;
- Nid oedd polisi gwarchod yr AHNE yn nodi bod dyluniad gwahanol yn groes i'r polisi;
- Bod y tŷ bwriedig, a oedd tu mewn i'r ffin datblygu, o ddyluniad gyda haenau er gweddu i mewn i'r safle;

- Bod egwyddor y bwriad yn dderbyniol;
- Byddai maint y tŷ bwriedig oddeutu 2 neu 3 gwaith y tŷ presennol ond byddai'r tŷ ond yn cymryd 25% o'r safle.

Nododd aelod y dylai cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor gael ei alw pan fo cais cynllunio mawr yn yr AHNE er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau ei ystyried cyn bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn anfon sylwadau at y Gwasanaeth Cynllunio.

Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn ei fod yn gyflogedig gan Gyngor Gwynedd a'i fod yn unol â chytundeb gwasanaeth wedi cyflwyno sylwadau ar y cais i'r Gwasanaeth Cynllunio. Pwysleisiodd fod ganddo rôl wahanol i'r Cyd-Bwyllgor. Nododd bod y cais cynllunio dan ystyriaeth yn gais newydd ac nad oedd cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y cais.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau parthed polisïau cynllunio, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn mai rôl y Cyd-Bwyllgor oedd ystyried effaith gweledol datblygiad ar dirlun ac arfordir yr AHNE.

**PENDERFYNWYD i gyflwyno'r sylwadau isod i sylw'r Gwasanaeth Cynllunio mewn perthynas â chais cynllunio 'The Shanty, Abersoch' (cais rhif C17/1024/39/LL):**

- **Er yn cydnabod fod y cynllun wedi ei addasu ers y cais blaenorol mae Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn parhau i wrthwynebu'r cais ar sail:**
  - **Byddai'r bwriad yn or-ddatblygiad o'r safle amlwg hon gyda'r ôl troed yn sylweddol fwy na'r tŷ presennol.**
  - **Byddai'r datblygiad yn ymwithiol.**

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-Bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017, fel rhai cywir yn ddarostyngedig i ddiwygio'r presenoldeb yn y fersiwn Saesneg i nodi bod Brett Garner yn cynrychioli "*Llŷn Fishermen's Association*".

## 6. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yr adroddiad, gan nodi yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor ar 6 Medi 2017 penderfynwyd derbyn drafft diwygiedig o Gynllun Rheoli'r AHNE fel sail ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Adroddodd y cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 2 Hydref a 10 Tachwedd.

Tywysodd yr aelodau drwy Atodiad 1 i'r adroddiad a oedd yn cynnwys crynodeb o'r prif sylwadau a dderbyniwyd, sylwadau'r Gwasanaeth AHNE ac argymhelliad i newid y cynllun neu beidio.

Nododd aelodau unigol y prif sylwadau isod yng nghyswllt y sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus:

- Fyddai'n bosib defnyddio geiriad gwahanol i *Brexit*, unai 'gadael yr Undeb Ewropeaidd' neu'r sillafiad Cymraeg?
- 6.3 - Bod y ffens ar Fwlch yr Eifl yn cael effaith weledol ar yr AHNE. Roedd yn ardal mynediad agored ac roedd yn mynd yn syth at wal amddiffynnol Tre'r Ceiri. Ddim yn deall sut y cafwyd rhoi ffens;

- 6.3 - Bod angen cyfeirio at y gwaith a gyflawnwyd eisoes o ran tanddaearu gwifrau ar Fwlch yr Eifl yn y Cynllun;
- 6.7 - Bod meysydd carafanau teithiol yn gorboblogi eu meysydd ac oherwydd diffyg staffio gan y Cyngor o ran gorfodaeth roedd yn anodd ei reoli. Yr angen i sgrinio meysydd carafanau i leihau'r effaith weledol;
- 12.2 - O ran ymestyn y tymor twristiaeth yn yr ardal yn gynaliadwy a gwarchodol o'r amgylchedd, yr angen i hyrwyddo yn gynaliadwy i'r iaith Gymraeg yn ogystal gan wneud yr iaith yn bwynt gwerthu'r ardal. Roedd angen cydnabod bod twristiaeth er yn beth da wedi cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal;
- 12.6 - Y dylid bod arwyddion yn cyfeirio pobl at yr AHNE o'r A55 fel rhan o Raglen Ffyrdd Cymru i dynnu sylw pobl at yr ardal;
- 12.6 - Bod angen sicrhau nad oedd Ffordd y Glannau a fyddai'n cychwyn yn Aberdaron a gorffen yn Nhŷ Ddewi fel rhan o Raglen Ffyrdd Cymru yn cael ei hyrwyddo ar draul rhannau eraill o Ben Llŷn;
- 13 - Bod angen hyrwyddo llwybr amldeffnydd mynediad i bawb o Nefyn i Benrhyn Nefyn;
- 13.3 - Fyddai'n bosib nodi yn y Cynllun Rheoli beth a nodir yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor i atgyfnerthu paragraff 13.11.2 yn enwedig o ran blaenoriaethau;
- 13.4 - Bod sylw Cyfoeth Naturiol Cymru yn eithaf negyddol o ran grŵp o wirfoddolwyr yn gwneud y gwaith gan nodi na fyddai'n gwbl ddiagonol i atal colli rhannau pwysig o'r rhwydwaith. Dylid nodi bod gwaith gwirfoddolwyr o fudd pellach i'r rhwydwaith na ddim ond o safbwynt iechyd a'r iaith Gymraeg;
- Fyddai'n bosib cynnwys map mwy manwl o'r AHNE yn y Cynllun?

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, nododd y swyddogion:

- Gellir newid i beidio defnyddio'r gair *Brexit* yn y fersiwn Gymraeg;
- O ran y ffens ar Fwlch yr Eifl, y gwnaed ymholiadau â Chyfoeth Naturiol Cymru ac fe wneir ymholiadau pellach;
- Yn unol â'r argymhelliad fe roddir mwy o wybodaeth am gynlluniau tanddaearu gwifrau ym mharagraff 6.92 o'r Cynllun Rheoli ac ychwanegu cyfeiriad at y ffens;
- Yr awgrymir yn y Cynllun i gynnal arolwg o feysydd carafanau yn yr ardal yn ystod 2019 a bod angen cryfhau o ran monitro;
- Rhoddir sylw i'r materion a godwyd o ran yr iaith Gymraeg mewn astudiaeth o ran yr iaith a fwriedir ei gynnal yn ystod 2019;
- Bod Rhaglen Ffyrdd Cymru yn cynnwys arwyddion newydd fel rhan o'r cynllun;
- Yr argymhellir cynnwys gwybodaeth am y Rhaglen Ffyrdd Cymru yn y Cynllun yn hytrach na'i hyrwyddo. Gallai'r mater fod yn eitem posib ar raglen cyfarfod y Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol er mwyn cyflwyno mwy o wybodaeth;
- Yr argymhellir cynnwys gweithred ychwanegol yn cyfeirio at greu llwybrau cysylltiol newydd at dir mynediad a chodi ymwybyddiaeth yn ddigidol a thrwy Lygad Llŷn;
- Fe nodir gwybodaeth i atgyfnerthu'r hyn a nodir yng Nghynllun Gwella Hawliau Tramwy'r Cyngor ym mharagraff 13.11.2 o'r Cynllun;
- Yr edrychir am fap mwy manwl o'r AHNE i'w gynnwys yn y Cynllun.

Holodd aelod beth oedd y diweddaraf o ran adolygiad Tirweddau'r Dyfodol Cymru a'r arian a grybwyllwyd a fyddai ar gael i'r AHNE. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn bod cydweithio wedi bod rhwng y Parciau Cenedlaethol a'r AHNEau, fe adnabuwyd meysydd gwaith gydag ychydig o arian wedi ei roi o'r neilltu ond nid oedd symudiad o ran gweithredu hyd yn hyn.

Nododd yr aelod y dylid anfon llythyr at Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn cadarnhad o'r sefyllfa.

Nododd aelod y byddai'n codi'r mater mewn cyfarfod ym mis Ionawr lle fyddai Croeso Cymru yn bresennol. Ychwanegodd aelod pe anfonir llythyr fe ddylid anfon copi at Sian Gwenllian AC a oedd yn aelod o Bwyllgor Amgylcheddol y Cynulliad.

Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai'n anfon llythyr ar ran y Cyd-Bwyllgor.

Nododd Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn y byddai fersiwn gryno o'r Cynllun yn dod gerbron y Cyd-Bwyllgor er mwyn derbyn sylwadau'r aelodau. Hysbysodd y derbyniwyd sylwadau gan Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ar ôl dosbarthu'r rhaglen yn nodi bod "...angen ychwanegu nodyn at y cynllun i'r perwyl y gellir cyflawni hyn efo'r adnoddau ar hyn o bryd ond byddai angen ail-ymweld petai'r sefyllfa'n newid." Argymhellir i ychwanegu brawddeg o dan gweithredu i nodi bod llwyddo i weithredu'r Cynllun yn ddibynnol ar gyllid ac fe allai'r sefyllfa newid.

Nododd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad o waith Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn a Swyddog Prosiect AHNE Llŷn yng nghyswilt y Cynllun.

**PENDERFYNWYD:**

- (i) **bod Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn yn ymgorffori sylwadau'r aelodau, yr argymhellion a nodir yn Atodiad 1 a sylwadau'r Tîm Arweinyddiaeth yn y Cynllun Rheoli;**
- (ii) **cyflwyno'r Cynllun Rheoli i sylw'r Aelod Cabinet Amgylchedd gan argymhell ei fod yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 4.30yh a daeth i ben am 6.10yh

---

**CADEIRYDD**



# Eitem 7

<b>PWYLLGOR</b>	Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Gorffennaf 17eg 2018
<b>TEITL</b>	Cynllun Rheoli AHNE
<b>PWRPAS</b>	Diweddarau Aelodau
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Swyddog AHNE Llŷn
<b>GWEITHREDIAD</b>	Dim

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Yn ystod 2015-17 bu gwaith yn mynd ymlaen ar adolygu Cynllun Rheoli yr AHNE. Roedd yn ofynnol i adolygu'r Cynllun er cydymffurfio â chyfrifoldebau Cyngor Gwynedd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ("Crow Act") 2000.
- 1.2 Yn y cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar Ragfyr yr 20fed 2017 rhoddwyd ystyriaeth i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori a phenderfynwyd ar y newidiadau terfynol i'w gwneud.

## **2.0 MABWYSIADU**

- 2.1 Ymgorfforwyd y newidiadau olaf i'r Cynllun ddechrau'r flwyddyn. Yna roedd angen i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn ffurfiol gan Gyngor Gwynedd (gan mai ar yr Awdurdod mae'r cyfrifoldeb i gynhyrchu a chyhoeddi'r Cynllun). Roedd yn bosib gwneud hynny trwy drefn ddirprwyedig yr Aelod Cabinet Amgylchedd yn hytrach nag adrodd i bwyllgor.
- 2.2 Yn dilyn hyn roedd angen cynnwys lluniau, sicrhau cywirdeb a phrawf ddarlenn y Cynllun cyn ei anfon i'r argraffdy. Bydd nifer cyfyngedig o gopiau caled o'r Cynllun yn cael eu cyhoeddi a bydd fersiwn electronig ar y we.

## **3.0 YR ADOLYGIAD NESAF**

- 3.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cydgordio gwaith cenedlaethol ar yr AHNE, wedi dechrau paratoi canllawiau newydd ar gyfer yr adolygiad nesaf o'r Cynllun Rheoli.
- 3.2 Mae llawer wedi newid yn ddiweddar ac mae'n ymddangos y bydd rhai newidiadau i'r broses ac mae'n debygol y bydd statws y cynlluniau yn uwch. Bydd gweithdy staff yn cael ei gynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn fuan ac bydd gwybodaeth bellach ar gael yno.

## **4.0 ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Derbyn yr wybodaeth

# Eitem 8

<b>PWYLLGOR</b>	Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Gorffennaf 17eg 2018
<b>TEITL</b>	Materion Cenedlaethol
<b>PWRPAS</b>	Diweddarau Aelodau
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Swyddog AHNE Llŷn
<b>GWEITHREDIAD</b>	Dim

## **1.0 CYFLWYNIAD**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr adolygiad mewn perthynas â'r tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol a'r AHNE) yng Nghymru a datblygiadau diweddar.

## **2.0 TIRWEDDAU CENEDLAETHOL: GWIREDDU EU POTENSIAL**

- 2.1 Rai blynyddoedd yn ôl bellach fe gomisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r tirweddau dynodedig. Penodwyd Panel dan gadeiryddiaeth yr Athro Terry Marsden i wneud y gwaith. Bu i'r Panel ymgynghori yn drylwyr gyda ystod eang o randdeiliaid fel rhan o'r broses cyn cyhoeddi adroddiad terfynol yn ystod haf 2015.
- 2.2 Roedd yn adroddiad "Tirweddau Cenedlaethol – Gwireddu eu Potensial" yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r sefyllfa bresennol, y cyfleon a'r cyfyngiadau. Roedd hefyd yn cynnwys cyfanswm o 69 argymhelliad ar gyfer gweithredu yn ymwneud ag egwyddorion, pwrpasau, gweledigaeth, llywodraethu, rheoli, perthynas â mudiadau eraill, cynllunio, cynrychiolaeth ac adnoddau.

## **3.0 TIRWEDDAU'R DYFODOL CYMRU**

- 3.1 Roedd manylder a nifer yr argymhellion yn "Adroddiad Marsden" yn annisgwyl. Ymateb Llywodraeth Cymru oedd cynnal cyfarfod i holl randdeiliad perthnasol yng Nghaerdydd yn Nhachwedd 2015 i asesu'r argymhellion ac ystyried y ffordd ymlaen.
- 3.2 Yn dilyn y cyfarfod hwn sefydlwyd rhaglen Tirweddau'r Dyfodol Cymru i ystyried y sefyllfa ymhellach a phenodwyd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn gadeirydd. Roedd hon yn raglen ddwys o hyfforddiant, ymchwil, trafod a chreu cynigion yn ymwneud yn bennaf gyda gosod gweledigaeth, llywodraethu, datblygiad economaidd ac adnoddau. Penllanw'r gwaith oedd cyhoeddi adroddiad ar y cyd – "Tirweddau'r Dyfodol – Cyflawni dros Gymru" yn Mai 2017.

### **3.0 DATBLYGIADAU DIWEDDAR**

- 3.1 Leslie Griffiths AC fel Ysgrifenydd cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig oedd gyda cyfrifoldeb dros y tirweddau dynodedig a bu iddi hi gynnal trafodaeth am Dirweddau'r Dyfodol Cymru yn y Senedd yn Mehefin 2017.
- 3.2 Yna yn Nhachwedd 2017 penodwyd Hannah Blythyn AC yn Weinidog dros yr Amgylchedd a hi bellach sydd â chyfrifoldeb dros y tirweddau dynodedig Cymru.
- 3.3 Bu i'r gweinidog wneud datganiad i'r Senedd ar Fawrth 13eg 2018 yn cyfeirio at Tirweddau'r Dyfodol Cymru. Diolchodd i'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a phawb a gymerodd ran ym mhroses Tirweddau'r Dyfodol Cymru. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn ymroddedig i'r tirweddau dynodedig ac na fyddai newid yn y rheswm dros eu dynodi – sef cynnal a gwella harddwch naturiol. Dywedodd hefyd fod angen i'r tirweddau wneud mwy i adnabod, gwarchod a hyrwyddo'r buddion cyhoeddus sydd ynddynt er budd pobol Cymru.
- 3.4 O ran yr AHNE dywedodd hefyd cydraddoldeb gyda'r Parciau Cenedlaethol o ran polisi cynllunio ond nad oedd hynny yn wir o ran statws, proffil ac adnoddau. Cyfeiriodd hefyd at lywodraethu ac awgrymu er fod hyblygrwydd fod rhai gwendidau yn y trefniadau presennol.
- 3.5 Hefyd fe ddywedodd y Gweinidog y byddai yn cyhoeddi Datganiad Polisi cyn toriad yr haf. Rhoddir diweddariad ar y mater hwn yn fuan.

### **4.0 ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Derbyn yr wybodaeth

# Eitem 9

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Gorffennaf 17eg 2018
<b>TEITL</b>	Materion Cynllunio
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Swyddog AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys ar raglen y Cydbwyllgor Ymgynghorol er mwyn gwybyddu aelodau am 3 apêl gynllunio am ddatblygiadau yn yr AHNE. Gellir cael manylion llawn am y ceisiadau, a'r apeliadau, ar safle we'r Cyngor drwy roi rhif y cais yn y system Dilyn a Darganfod ceisiadau cynllunio.

## 2.0 THE SHANTY, ABERSOCH (C17/1024/39/LL)

2.1 Cyflwynwyd dau gais ar gyfer dymchwel y tŷ gwreiddiol ac adeiladu tŷ newydd tair lefel ar y safle. Trafodwyd y cais cyntaf a'r ail gais mewn cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol a chyflwynwyd sylwadau yn gwrthwynebu'r ceisiadau. Bu i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd wrthod y ddau gais.

2.2 Bu i'r ymgeisydd gyflwyno apêl ar yr ail gais a wrthodwyd. Cafodd yr apêl ei chaniatau.

## 3.0 GER GLYNLLIFON, LLANBEDROG (C17/0725/38/AM)

3.1 Y cynnig oedd creu 13 llety gwyliau deulawr gyda parcio cysylltiedig ac ardal mwynderol dros arwynebedd o 0.50ha o dir. Bu i'r Gwasanaeth AHNE ddatgan pryderon sylweddol ynglŷn â'r cais oherwydd maint a graddfa y datblygiad mewn lleoliad ar safle naturiol o werth gweledol uchel gerllaw i Heneb Rhestriedig. Cafodd yr apêl ei gwrthod.

## 4.0 COED GER GORSE BANK, ABERSOCH (C17/1185/39/CC)

4.1 Mae'r coed yma wedi eu lleoli mewn man amlwg ar drwyn Penbenar yn Abersoch ac wedi eu barnu i fod yn haeddiannol o warchodaeth trwy Orchymyn Diogelu Coed. Bu i'r Gwasanaeth AHNE ddatgan pryder am y bwriad gan nodi, er nad ydynt yn goed brodorol, eu bod yn gwneud cyfraniad i edrychiad yr ardal a'r AHNE. Gwrthodwyd yr apêl.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

### 3.1 Derbyn yr wybodaeth

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	17eg Gorffennaf 2018
<b>TEITL</b>	Prosiectau
<b>PWRPAS</b>	Diweddarau'r Aelodau
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor am brosiectau diweddar y Gwasanaeth AHNE.

## 2.0 AROLWG TIROEDD COMIN

- 2.1 Roedd y prosiect ymchwil hwn wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli blaenorol. Mae nifer helaeth o Diroedd Comin yn yr AHNE a maent yn nodwedd o gymeriad yr ardal. Er hynny, nid oedd llawer o wybodaeth gyfredol amdanynt ac roedd yn ymddangos fod gan rai gam-argraff o ran eu perchnogaeth ar hawliau sydd ynghlwm â nhw.
- 2.2 Bu i'r Gwasanaeth AHNE gomisiynu cwmni lleol Madryn Cyf i wneud gwaith ymchwil i gefndir a hanes y tiroedd comin, sefydlu beth ydyw'r rheoliadau, asesu eu cyflwr a'u cyfraniad at fioamrywiaeth. Mae'r ymchwil hefyd yn asesu'r defnydd a wneir o'r safleoedd hyn ar hyn o bryd ac edrych ar wahanol opsiynau ar eu cyfer yn y dyfodol.

## 3.0 RHYWOGAETHAU YMLEDOL

- 3.1 Mae gweithredu i adnabod a thrin rhywiogaethau estron ymledol wedi ei adnabod yn y Cynllun Rheoli diwygiedig. Yn y flwyddyn ariannol hon mae'r Gwasanaeth AHNE yn cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru i waredu Efwr Enfawr ("Giant Hogweed") sy'n tyfu ar lannau Afon Soch yng nghyffiniau Llandegwning.
- 3.2 Mae'r Efwr Enfawr yn tarddu o Dde Rwsia a Georgia ac yn gallu tyfu hyd at 10 troedfedd o uchder. Cafodd ei fewnforio i Brydain yn yr 19fed Ganrif er mwyn ei dyfu mewn gerddi ardduniadol Plasdai ayb. Mae'r planhigyn yn ymledol ac mae ei sudd yn gallu bod yn niweidiol iawn i bobl drwy losgi'r croen.

## 4.0 HYFFORDDIANT SGILIAU GWLEDIG

- 4.1 Gan fod cloddiau a waliau cerrig wedi eu hadnabod fel nodweddion pwysig ar dirlun Llŷn mae'n bwysig eu cynnal a'u hadfer. Mae hyfforddiant wedi ei drefnu ar

gyfer mis Medi eleni er mwyn meithrin sgiliau mewn codi cloddiau a waliau cerrig sychion.

- 4.2 Rydym wedi cydweithio gyda Choleg Meirion Dwyfor a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar y prosiect hwn yn ogystal â chontractwr lleol. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal ar ran o'r Wal Fawr yn Llithfaen a fferm Porth Gwylan ger Tudweiliog. Bydd yr union ddyddiadau a threfniadau cadw lle yn y wasg yn fuan.

## **5.0 PROSIECTAU GWELLA MYNEDIAD**

- 5.1 Ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf fe lwyddodd y Gwasanaeth AHNE i ddenu peth cyllid gan Llywodraeth Cymru tuag at waith gwella mynediad yn yr AHNE. Anelir i gwblhau'r gwelliannau hyn yn ystod yr haf eleni, sef:

- Gwelliannau i lwybr rhif 2 yn Pistyll
- Gwelliannau i lwybr rhif 12 yn Cilan
- Gwella mynediad a llwybr cyhoeddus rhif 7 at Gromlech Cefnamwlch, Tudweiliog
- Clirio, gwella a gosod arwyddion - llwybr at Ffynnon Saint, Y Rhiw

## **6.0 AWYR DYWYLL**

- 6.1 Mae gweithio tuag at gael statws Awyr Dywyll i AHNE Llŷn wedi ei adnabod fel prosiect yn y Cynllun Rheoli diwygiedig. Fel cam cyntaf mae'r Gwasanaeth AHNE wedi comisiynu Dark Skies Wales Ltd i wneud arolwg o dywyllwch yr awyr ac mae'n gwaith hynny yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn trafod y posibilrwydd o gydweithio hefo AHNE Ynys Môn, AHNE Bryniau Clwyd a Pharc Cenedlaethol Eryri i gynnal digwyddiadau a hyrwyddo awyr dywyll yr ardaloedd dydodedig.

## **7.0 ARGYMHELLIAD**

- 7.1 Gofynnir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod.